**GWASANAETHAU TAI A RHEOLEIDDIO**
**CYNGOR SIR PENFRO**

## CAIS AM WNEUD NEWIDIADAU / GWELLIANNAU MEWN EIDDO I'R CYNGOR

**Sylwer:** Mae'n bwysig eich bod yn darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ynglŷn â'ch bwriad er mwyn gallu ei ystyried **heb oedi**. Mae'n rhaid felly i chi ddarparu manylion cywir (yn cynnwys cynlluniau) y gwaith a fwriedir, gyda chostau a gwarantau.

Mae'n werth nodi:

1. Os byddwch yn prynu eich cartref, y gellid tynnu *Gwerth Ychwanegol* eich gwaith oddi ar y pris a werthuswyd.
2. Os byddwch yn gadael yr eiddo hwn mae'n bosibl y bydd gennych chi hawl i gael iawndal am eich gwaith.
3. Efallai y bydd y Cyngor yn barod i gynnal a chadw'r gwelliannau e.e. gwres canolog nwy.

| | |
|---|---|
| **Enw'r ymgeisydd:** | |
| **Yr enw ar y denantiaeth:** (os yw'n wahanol i'r uchod) | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Y math o welliant** (atodwch frasluniau/cynlluniau er mwyn dangos yr holl waith a fwriedir) | |
| **Enw a chyfeiriad yr Adeiladwr / Contractwr a fwriedir:** | |
| **Amcangyfrif o'r gost** (atodwch fanylion lle bo hynny'n briodol) | |
| **Llofnod:** | **Dyddiad:** |

**Dychwelwch i'r: Isadran Cynnal a Chadw Adeiladau, Cyngor Sir Penfro**
**Uned 23 Ystad Ddiwydiannol Thornton, Steynton, Aberdaugleddau, SA73 2RR**

Mae'n rhaid cofio nad yw cais am ganiatâd Landlord Cyngor yn rhyddhau'r ymgeisydd unrhyw fodd rhag cydymffurfio'n llawn â Deddfwriaeth Priffyrdd a Chynllunio a Rheoli Adeiladu cyfredol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag a oes angen caniatâd ar y gwaith a fwriedir ar gael gan Swyddfeydd y Cyngor. Os bydd angen y naill ganiatâd neu'r llall, dylid atodi copi o'r dystysgrif gymeradwyaeth gyda'r cais hwn.

| | | |
|---|---|---|
| A roddwyd Cymeradwyaeth Rheoli Adeiladu? | Os Do<br>Dyddiad: ……………………….<br>Cyf: …………………………… | Os Naddo, pam ddim?<br>…………………………………………………….<br>……………………………………………………. |
| A roddwyd Cymeradwyaeth Cynllunio? | Os Do<br>Dyddiad: ……………………….<br>Cyf: …………………………… | Os Naddo, pam ddim?<br>…………………………………………………….<br>……………………………………………………. |
| A roddwyd Cymeradwyaeth Priffyrdd? | Os Do<br>Dyddiad: ……………………….<br>Cyf: …………………………… | Os Naddo, pam ddim?<br>…………………………………………………….<br>……………………………………………………. |
| **Caniatâd y Landlord** | Rhoddwyd<br>……………………………………. | Dyddiad: |
| | Yn amodol ar amodau 1.2.3.4.5.6.7.8.9.10.11.12.13.14.15.16.17.18.19.20 ar gefn y ffurflen hon. | |

**AMODAU CANIATÂD SAFONOL AR GYFER CANIATÂD I GODI ADEILAD NEU WNEUD NEWIDIADAU MEWN PRESWYLFA SY'N EIDDO I'R CYNGOR**

1. Mae'r holl waith i'w wneud yn gyfan gwbl ar eich traul eich hun a heb unrhyw gost i'r Cyngor.

2. Mae'r holl waith i'w wneud mewn modd cymwys a chrefftus ac er boddhad llwyr y Cyngor. Pe byddai'r gwaith yn anfoddhaol yna mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gwblhau neu newid y gwaith ar eich traul chi.

3. Mae cyfleusterau cadw bwyd digonol gydag awyriad i fynd yn lle'r storfa fwyd bresennol.

4. Mae cyfleusterau cadw glo digonol i fynd yn lle'r cwt glo presennol.

5. Mae'r llawr caled yr ydych chi'n ei ddarparu i gael ei ddefnyddio i barcio ceir preifat dros nos yn unig. Chi fydd yn talu am ei osod ac unrhyw newidiadau yn y gwasanaethau tanddaearol.

6. Dylid codi'r sied neu'r tŷ gwydr dim llai na 14 o droedfeddi o wal gefn y tŷ. .

7. Chi sydd i gynnal a chadw'r holl waith newid neu'r gosodiad heb ddim cost i'r Cyngor hwn.

8. Defnyddir y garej yr ydych chi'n ei ddarparu i gadw ceir preifat yn unig.

9. Mae'r gwaith adeiladu i fod i gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu cyfredol ac nid oes unrhyw waith i fod i gael ei wneud hyd nes byddwch chi wedi gwneud cais am ganiatâd ac wedi ei dderbyn.

10. Mae'r holl waith i'w wneud yn hollol unol â'r Rheoliad I.E.E. cyfredol.

11. Mae'r gosodiad i'w wneud gan osodwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'r Gwasanaeth Ymgynghorol Tanwydd Solet.

12. Mae'r gosodiad i'w wneud gan osodwyr cyfarpar nwy wedi eu cofrestru gyda CORGI. Mae'n rhaid ysgubo'r bibell simnai bresennol yn drylwyr. Mae'n rhaid gosod leinin o ddur gloyw gyda therfynell nwy ar holl hyd y simnai bresennol. Ar ddiwedd cyfnod gwarant y cyfarpar newydd bydd rhagor o waith gwasanaethu yn cael ei wneud ar draul y Cyngor, cyn belled bod tystiolaeth wedi ei chyflwyno sy'n dangos bod gosodwr CORGI wedi rhoi gwasanaeth i'r cyfarpar yn ystod y chwe mis diwethaf. Mae pob gosodiad nwy i fod i gydymffurfio â Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1984.

13. Mae Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 yn gofyn mai dim ond i bobl 'gymwys' y caniateir cloddio mewn ffordd gyhoeddus. Dymunir o ddewis eich bod yn defnyddio contractwyr y Cyngor. Os byddwch yn penodi eich contractwr eich hun, dylech hysbysu ein Peirianwyr o enw'r contractwr a sicrhau y gwneir y gwaith i safon dderbyniol.

14. Mae'n rhaid i'r llawr caled ar gyfer cerbydau fod y tu ôl i linell wal flaen y breswylfa.

15. Mae'r holl osodiad i'w adael yn gyfan pan fyddwch yn ymadael â'r adeilad, yn gweithio'n iawn a heb unrhyw ddyled arno.

16. Mae bwlch a wnaethpwyd yn wal y cwrt blaen i gael ei orffen gyda cholofnau er mwyn cyfateb i wal bresennol y cwrt blaen a bydd giatiau dwy ddalen arno, yn agor i mewn.

17. Nid oes unrhyw wasanaeth trydan, nwy na dŵr i'w osod i unrhyw sied neu adeilad.

18. Mae'n rhaid i gontractwr wedi ei gofrestru gyda N.I.C.E.I.E. osod unrhyw gawod drydanol. Mae'r gwaith i'w wneud yn hollol unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â rhifyn 15 y Rheoliadau I.E.C. a'r newidiadau gyda sylw arbennig i'r bondio. Mae'n rhaid i waith pibelli newydd y tu mewn i'r to ar gyfer unrhyw gawod fod wedi ei gynnal yn ddiogel a'i inswleiddio'n gywir. Mae'n rhaid i'r cysylltiad rhwng y bath a'r wal fod wedi ei selio gyda defnydd selio bath silicon.

19. Yn ystod gwaith adeiladu y byddwch chi neu adeiladwr ar eich rhan yn ei wneud, ni fydd y Cyngor yn cyflwyno unrhyw hawliad am eich anaf personol, nac i drydydd parti, na niwed i unrhyw eiddo.

20. Cofiwch roi gwybod yn gyson i'r Cyngor am gynnydd y gwaith er mwyn gallu gwneud archwiliadau lle bynnag y mae eu hangen a hefyd wedi cwblhau'r gwaith.